2022/23, ymgysylltwyd â staff ar ffurf y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro i gofnodi safbwyntiau ar y trefniadau gweithio newydd, yr Arolwg Iechyd a Lles blynyddol diweddaraf i gofnodi teimladau staff ar draws ystod o faterion o'u llesiant i trefniadau gweithio, ac Adolygiad Gweithio Hybrid y Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio ym mis Mawrth 2023 i gofnodi adborth ar effeithiolrwydd y trefniadau gweithio hybrid newydd. Rhestrir rhai o'r arolygon rheolaidd a gynhaliwyd i sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â'i staff isod. Mae canfyddiadau'r ymarferion hyn wedi'i'u defnyddio yn yr hunanasesiad.

- Arolwg TG Gweithio O Gartref (Mehefin 2020)
- Arolwg Iechyd a Lles Coronafeirws (Tachwedd 2020)
- Arolwg Staff Y Ffordd Rydym yn Gweithio (Mawrth 2021)
- Arolwg Staff Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro (Gorffennaf 2022)
- Arolwg Iechyd a Lles (Chwefror 2020)
- Arolwg Pwls Iechyd a Lles Gweithwyr (Tachwedd 2021)
- Arolwg Iechyd a Lles Gweithwyr (Rhagfyr 2022)
- Adolygiad Gweithio Hybrid Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio

Ymrwymadau Cyhoeddus

Cynhaliwyd saith ymarfer ymgysylltu wedi'i'u targedu yn ystod 2022-23. Roedd rhai

yn cael eu rhedeg gan y Cyngor yn unig a rhai yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth ag eraill wrth i ni geisio lleihau 'blinder ymgynghori'. Bydd adborth o'r ymarferion hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a strategaethau ar gyfer y dyfodol. Ceir manylion yr ymarferion hyn drosodd.

YMGYNHORIAD RHANDDEILIAD CORFFORAETHOL

Yn ystod 2023 rydym yn rhedeg ein cyntaf o 'Arolygon Rhanddeiliad' mewn cyfres gyfredol i gefnogi hunanasesiad a thaitth perfformiad cyfredol y cyngor.

Mae'n galluogi ni i wirio gyda phreswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid arall megis grwpiau cymunedol, ar nifer o faterion megis y cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant corfforaethol, y blaenoriaethau wrth symud ymlaen a'r ffordd yr ydym yn monitro a mesur perfformiad.

Mae'r cyntaf o rain yn cael i'w rhedeg yn ystod haf 2023 a bydd y canlyniadau yn cael ei defnyddio i hysbysu'r rownd nesaf o hunanasesiad.

Mae eich barnau yn bwysig i ni. Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad yma, ein perfformiad a'r camau yr ydym yn cymryd, unrhyw bryd.

Defnyddiwch y manylion cyswllt ar y clawr cefn i gysylltu efo ni neu cadwch lygad allan am yr arolwg rhanddeiliaid blynyddol.



Dweud eich dweud ar Amcanion Llesiant Ceredigion

Dyddiad cau: 31 Awst 2023



CYSYLLTWCH Â NI

Ebost: clic@ceredigion.gov.uk

Post: Performance and Research
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Ffôn: 01 545 570881



YMARFERION YMRWYMO YN 2022/23

Amser yr Ymarfer	Disgrifiad	Ymateb	Beth Nesaf
Datblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i ddarparu cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Mai/Mehefin 2022)	Cynhaliodd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys) ymarfer ymgysylltu mewnol ac allanol i wahodd barn ar sut y dylid defnyddio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU dros y 3 blynedd nesaf.	176 o ymatebion i arolwg ar-lein ynghyd â dros 150 o randdeiliaid a fynychodd weminar ac 20 o sefydliadau sy'n aelodau o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.	Defnyddiwyd ymatebion i helpu i lunio blaenoriaethau lefel uchel Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-25. Mae'r Cynllun yn rhoi arweiniad i fusnesau a sefydliadau lleol sy'n dymuno gwneud cais am gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
Llifogydd yn Llanybydder, Llandysul a Phont-Tyweli (Mehefin - Awst 2022)	Cynhaliodd Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ymgysylltiad 12 wythnos a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin i ofyn barn y cyhoedd i gael gwell dealltwriaeth o'r effaith y mae llifogydd yn ei chael ar y cymunedau.	124 (58: Llanybydder a 66: Llandysul/Pont-Tyweli).	Bydd ymatebion yn bwydo i gam nesaf y gwaith ac yn ffurfio rhan o wneud penderfyniadau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i ddylunio a gweithredu cynllun lleihau risg o lifogydd.
Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru (Gorffennaf - Medi 2022)	Ymgysylltiad 7 wythnos a gynhelir gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys) i fod yn sail i Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru 2022-25.	69 (73% o Bowys / 27% o Geredigion)	Lansiwyd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru 2022-25 ym mis Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn nodi sectorau allweddol a sgiliau a blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru.
Addysg ôl-16 (Hydref 2022)	Cynhaliodd Ysgolion a Diwylliant 4 wythnos o ymgysylltu â busnesau, rhieni, disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd a myfyrwyr prifysgol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am yr ystod o gyrsgiau a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer dysgwyr ôl-16.	1,307 i'r arolwg ar-lein.	Bydd yr ymatebion yn bwydo i mewn i'r adolygiad o ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion.
Defnydd o Adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol (Rhagfyr 2022/Ionawr 2023)	Cynhaliodd Economi ac Adfywio ymgysylltiad 8 wythnos gyda'r cyhoedd i ofyn am eu barn ar y ffordd orau o ddefnyddio prif swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol.	533 (508 i'r arolwg ar-lein a 25 i fersiwn bapur). Cafwyd ymatebion ychwanegol hefyd drwy Clic.	Bydd adborth yn cael ei ystyried, ochr yn ochr ag adborth gan staff y Cyngor a data ar ddefnyddio desgiau ac ystafelloedd cyfarfod mewn ardaloedd swyddfa hybrid peilot.
Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn (Ionawr – Mawrth 2023)	Cynhaliodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ymgysylltiad 8 wythnos i gasglu barn am drosedd ac anhrefn yn y sir.	89 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, 3 ymateb ar arolwg papur a 9 ymateb o ddigwyddiad Cyngor Ieuencid Ceredigion.	Bydd yr ymatebion yn sail i Gynllun Cyflawni Diogelwch Cymunedol Ceredigion sy'n ceisio amddiffyn cymunedau lleol rhag trosedd a helpu pobl i deimlo'n fwy diogel.
Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion (Chwefror/Mawrth 2023)	Cynhaliodd ein rhaglen Llesiant Gydol Oed 6 wythnos o ymgysylltu â'r cyhoedd, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn, i sefydlu sut yr ydym yn gwneud a beth y gallwn ei wneud i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.	35 o'r arolwg ar-lein ynghyd â 10 o sesiynau galw heibio mewn 6 lleoliad ar draws y sir. Casglwyd ymatebion ychwanegol o ymweliadau wyneb yn wyneb â 5 grŵp/cartref gofal, sesiynau ffocws gyda darparwyr gwasanaethau a 55 x galwadau fideo un i un.	Bydd ymatebion yn bwydo i ddatblygiad Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion.

YMARFERION YMGYNGHORI YN 2022/23

Cynhaliwyd pum ymarfer ymgynghori i gael adborth y cyhoedd ar gynlluniau neu gynigion penodol. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymarferion ymgynghori i'r Cabinet ochr yn ochr â'r cynllun neu'r polisi terfynol. Mae'r holl gynlluniau a pholisïau a gymeradwywyd bellach wedi'u cyhoeddi

ar wefan y Cyngor (ar wahân i'r Strategaeth Mamolaeth a Blyn-yddoedd Cynnar ar gyfer Canolbarth Cymru a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 06/06/23).

Amser yr Ymarfer	Disgrifiad	Ymateb	Effaith yr Ymgynghoriad
Adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Mai/Mehefin 2022)	Cynhaliodd Ysgolion a Diwylliant ymgynghoriad 4 wythnos i geisio barn partïon a chanddynt fuddiant ar adroddiad drafft yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Roedd y ddogfen drafft yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad helaeth argaeledd gofal plant yng Ngheredigion.	17	Roedd pobl yn cytuno'n gyffredinol â chynnwys yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'n debyg bod hyn oherwydd yr ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd yn 2021-22 i fod yn sail i adroddiad yr asesiad. Datblygwyd y cynllun gweithredu yn unol â'r ddogfen wreiddiol.
Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi (Gorffennaf-Medi 2022)	Cynhaliodd Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ymgynghoriad 8 wythnos i ofyn am farn partïon a chanddynt fuddiant ar sut y dylai'r cyngor ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ofyn am adborth ar y polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad drafft.	112	Diwygiwyd y polisi terfynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.
Strategaeth Mamolaeth a Blyn-yddoedd Cynnar Canolbarth Cymru (Gorffennaf/Awst 2022)	Cynhaliwyd ymgynghoriad rhanbarthol 13 wythnos gan Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ofyn am farn partïon a chanddynt fuddiant ar y strategaeth hon sy'n canolbwyntio ar gymorth integredig yn ystod 7 mlynedd gyntaf bywyd plentyn.	137	Gwnaed gwelliannau i'r strategaeth yn seiliedig ar adborth a gafwyd.
Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-27 (Awst/Medi 2022)	Cynhaliodd Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ymgynghoriad 5 wythnos i ofyn barn trigolion Ceredigion ar Strategaeth Gorfforaethol drafft Cyngor Ceredigion a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig dros y 5 mlynedd nesaf.	51	Cafodd gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad eu hymgorffori yn y ddogfen derfynol.
Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28 (Hydref 2022-Ionawr 2023)	Cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ymgynghoriad 14 wythnos i ofyn am adborth gan y cyhoedd ar gynnwys y Cynllun Llesiant Lleol drafft ar gyfer Ceredigion. Roedd y Cynllun drafft yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad helaeth, gan gynnwys ymgynghori, a gynhaliwyd yn 2021-22 ar gyflwr llesiant yng Ngheredigion.	34 o arolygon wedi'u cwblhau, ynghyd ag adborth o sesiynau ffocws gydag 16 ysgol a Chyngor Ieuencid Ceredigion. 7 ymateb manwl gan sefydliadau lleol a chenedlaethol a 15 ymateb ar y wal syniadau ar 'Dweud eich Dweud'.	Ymgorfforwyd sylwadau ac adborth yn y ddogfen derfynol a byddant hefyd yn gwella datblygiad y cynllun cyflawni manwl.

YMARFERION HYSBYSU 2022/23

Mewn rhai achosion, mae gan y Cyngor dyletswydd i hysbysu'r cyhoedd am cynig a darparu ffordd i grwpiau gyda diddordeb i ymateb. Cynhaliwyd pedwar ymarfer 'hysbysu' yn ystod y cyfnod.


Teitl y Gweithgaredd	Disgrifiad	Ymateb
Cais am Gofrestru Cae Erw Goch	Rhestrir yr holl ohebiaeth, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Cabinet sy'n ymwneud â'r mater hwn, ar wefan y Cyngor	2
Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol (GRTA)	Gwnaethpwyd dau GRTA i gadw a diwygio nifer o fesurau rheoli traffig a gyflwynwyd yn flaenorol yn ystod y pandemig Covid-19 yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chei Newydd trwy Orchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro.	34, ynghyd â thrafodaethau gyda'r Fforwm Anabledd
Cynlluniau Pensaer ar gyfer Ysgol Ardal Gymunedol Dyffryn Aeron	Cynhaliwyd noson agored ar gampws Theatr Felinfach i bobl weld y cynlluniau pensaer a oedd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.	48
Cau llwybr troed Ysgol Uwchradd Aberaeron	Rhestrir copi o'r Gorchmyn Rheoleiddio Traffig, ymatebion, a sylwadau ar ymatebion gan y Cyngor ar wefan y Cyngor. Mae'r holl ymatebwyr hefyd yn cael ymateb ysgrifenedig gan y Cyngor.	8

YMGYNGHORIAD Y STRATEGAETH CORFFORAETHOL

Un enghraifft o ymgynghori a gynhaliwyd oedd ar Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027. Mae'r ddogfen hon yn bwysig oherwydd ei bod yn nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor (blaenoriaethau corfforaethol) wrth symud ymlaen. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i randdeiliaid am y Strategaeth rhwng mis Medi a mis Hydref 2022. Er ein bod yn cydnabod mai nifer fach o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae'r ymatebion yn hollbwysig er mwyn deall beth sy'n flaenoriaeth i Geredigion ac sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth iddi.


Yn gyffredinol, roedd lefel uchel o gefnogaeth i'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac roedd y sylwadau ysgrifenedig lle'r oedd ymatebwyr yn tynnu sylw at themâu sy'n berthnasol iddynt, yn cyd-fynd yn agos â'r uchelgeisiau a'r camau yn y Strategaeth. Mae'r diagram gyferbyn yn dangos hyn.

YR HYN A DDYWEDOCH WRTHYM




78%

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Hybu'r Economi (6% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)




75%

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach (8% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)



71%

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd (4% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)



73%

Cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r amcan Creu Cymunedau Cynaliadwy, mwy Gwyrdd ac sydd wedi'u Cysylltu'n Dda a'i Gilydd (2% yn anghytuno neu anghytuno'n gryf)

YMGYNGHORIAD Y STRATEGAETH GORFFORAETHOL

YR HYN A DDYWEDDOCH	SUT MAE EIN STRATEGAETH GORFFORAETHOL YN ALINIO
Cefnogaeth i fusnesau, busnesau bach a chanolig a chynlluniau newydd	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m Cefnogi cais Ceredigion i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU Cefnogi datblygiad y prosiect Trefi Smart yn Aberteifi, yn ein trefi arall yng Ngheredigion
Cysylltiad digidol i bawb, nid dim ond canran	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi cyflwyno Band Eang 4G
Effaith amgylcheddol o ddatblygiad a thwf economaidd	<ul style="list-style-type: none"> Galluogi mentrau a mesurau lliniaru i helpu i ddatrys y mater ecolegol ffosffadau a maetholion yn Nyffryn Teifi a dalgylchoedd arall Dilyn Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau a chadwyni cyflenwi lleol mewn busnesau'r cyngor
Cyfleusterau hamdden a chyfleoedd i bobl ifanc	<ul style="list-style-type: none"> Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, gyda'r nos ac ar y penwythnos, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer Chwarae hunangyfeiried a ddewisir yn rhydd a bod y gwasanaethau hyn wedi'u cofrestru i alluogi rhieni i gael mynediad at gymorth ariannol Cefnogi disgyblion a theuluoedd i gael mynediad i glybiau ieuencid lleol, grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau wedi'u trefnu
Cyfleoedd teithio effeithiol yn enwedig cerdded a beicio	<ul style="list-style-type: none"> Darparu cyfleusterau hamdden fodern, hygyrch ac ysbrydoledig ar draws y tair ardal yng Ngheredigion (gogledd, canolbarth a deheuol) Hybu pobl i wneud ymarfer corff fel bod modd iddynt fuddio o iechyd a lles positif Cyflwyno pecynnau aelodaeth well i ddefnyddio canolfannau hamdden sy'n cael ei rheoli gan y Cyngor Darparu cyfleoedd addysg gorfforol allgymorth tu allan i ganol trefi'r sir
Heriau sy'n wynebu darpariaeth gofal cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> Symud ymlaen gydag adeiladau cartref nyrsio newydd yn ardal Aberystwyth a darparu'r anghenion gofal nyrsio sydd angen ar ein poblogaeth Cefnogi'r uchelgais o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru Symud ymlaen gyda Darpariaeth Model Gydol Oed, darparu 70% o fewn gwasanaethau cyffredinol a chymorth cynnar, 20% mewn gwasanaethau Asesiad a thymor byr a 10% mewn gwasanaethau Arbenigol

YR HYN A DDYWEDDOCH	SUT MAE EIN STRATEGAETH GORFFORAETHOL YN ALINIO
Cyfleoedd dysgu i oedolion a phobl hŷn	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu fforwm cyflogwyr cadarn drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, yr Economi ac Adfywio, a LL&S Datblygu cysylltiadau ar-lein/cymdeithasol a digwyddiadau dros dro i farchnata rolau/sectorau yng Ngheredigion Ymgymryd ag adolygiad o addysg dros 16 a gweithredu'r argymelliadau cymeradwy Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth E-sgol Sicrhau bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio ar brosiectau a nodwyd i ddatblygu sgiliau priodol i gefnogi'r economi leol
Cysylltu cymunedau trwy llwybrau teithio effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau mwy o arian ar gyfer darparu ystod eang o welliannau teithio llesol Ymgyrchu dros lwybrau teithio llesol ar hyd ein cefnffyrdd i gyd Gwthio i gynnwys ein trefi bach ac ardaloedd gwledig yn feini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid i lwybrau teithio llesol
Gwella cludiant cyhoeddus a chostau uchel	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi gwasanaeth ar-alw Bwcabus yn ein cymunedau gwledig yn amodol ar gyfleoedd ariannu parhaus a chynyddol gan Lywodraeth Cymru Dadlueu yn gryf dros unrhyw uchelgeisiau gan Lywodraeth Cymru i fasnach freinio llwybrau trafndiaeth gyhoeddus i gynnwys cwmnïau bysiau bach lleol Gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi a chynnal y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus, ac adnabod cyllid/ gwelliannau ble mae'n bosib
Darparu gofal plant a recriwtio siaradwyr Cymraeg	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant i rieni plant 3 i 4 oed sy'n gweithio Bydd rhieni/gwarcheidwaid sydd mewn addysg neu hyfforddiant ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant Cefnogi argaeledd gofal plant ar gyfer plant 2 oed Codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth i rieni sy'n gweithio Cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd darpariaeth gofal plant cofrestredig
Amddifadedd Gwledig	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu canolfan adnoddau i gefnogi teuluoedd bregus / incwm isel Incwm cartref uwch ben y cyfartaledd cenedlaethol

ADOLYGIAD O'R AMCANION LLESIANT

Cyhoeddwyd y Strategaeth Gorfforaethol newydd ym mis Tachwedd 2022 a chytunwyd mai'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd oedd:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor yn galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion. Adolygwyd yr Amcanion yn ystod 2022 a chytunwyd ar set newydd i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2022-27. Nodwyd yr Amcanion newydd drwy amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion ac uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Cam cyntaf y broses oedd cynnal dadansoddiad pen bwrd o amrywiol ddarnau o dystiolaeth, er mwyn nodi'r prif faterion sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, a oedd yn darparu darlun cynhwysfawr o lesiant yn y sir, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang â'r cyhoedd yn ystod 2021. Trwy hyn, cawsom wybod am bryderon pobl a'r meysydd y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella.

Ar ôl hynny, tynnwyd yr adborth ynghyd a'i

ddehongli gan ystyried blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd dros y bum mlynedd nesaf a'i gymharu â'r Asesiad i nodi unrhyw flychau. Cynhaliwyd gweithdai gyda gwasanaethau'r Cyngor fel cam arall yn y broses ac aethpwyd ati i ddatblygu'r camau unigol y byddai angen eu cymryd i gyflawni'r Amcanion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r saith Nod Llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn y Ddeddf. Ar yr un pryd mae'n rhaid i ni gyhoeddi datganiad yn egluro pam y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a pha gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion.

Rydym yn adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a'n camau bob blwyddyn i sicrhau mai dyma yw'r Amcanion iawn i Geredigion a'n bod ni yn eu cyflawni nhw.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o sut mae ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2022/23 yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol, adolygiad o gynnydd yn erbyn cyflawni'r Amcanion a sut rydym wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Ein Gweledigaeth:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy gwerth am arian sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach wrth hyrwyddo llesiant yn ein pobl a'n cymunedau

Ein Amcanion Llesiant Corfforaethol:



ASESU CYNNYDD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynnydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Er ein bod yn adolygu cynnydd yn barhaus, rydym yn cyhoeddi ein perfformiad diweddaraf bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Hunanasesu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno gofynion adrodd statudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth asesu ein cynnydd drwyddi draw, rydym yn defnyddio Gwiriwr Siwrnai Cenedlaethau'r Dyfodol i gynorthwyo wrth lunio asesiad safonol o'n cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant Corfforaethol.



Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn offer defnyddiol sy'n categorio cynnydd yn ôl pum maen prawf, sy'n amrywio o 'Dim Newid' lle nad oes cynnydd wedi'i wneud i 'Arwain y Ffordd' sy'n golygu y gwnaed cynnydd da a bod lefel ein dealltwriaeth am y materion sy'n effeithio llesiant yn gynhwysfawr a bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu deall a'u hyst-

ried gan bawb. Gwelir y categorïau hyn yn y system sgorio yn y tabl isod.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn ffordd ddefnyddiol o asesu'r camau gweithredu unigol a wnaed, yn ogystal ag asesu sut rydym yn cyflawni'r amcanion.

Ar y tudalennau canlynol ceir adolygiad o'n cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhai uchafbwyntiau a llwyddiannau diweddar, ynghyd â rhai o'r cyflawniadau i'r hirdymor wrth gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

Gwiriwr Taith Cenedlaethau'r Dyfodol

DIM NEWID	NEWID SYML	MWY ANTUROL	HUNAIN UCHELGAIS	ARWAIN Y FFORDD
				



CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Yn ystod 2022/23 ymdriniodd ein canolfan cyswllt cwsmeriaid (CLIC) â'r ymholiadau canlynol:

130,908

Galwad ffôn wedi derbyn yn ystod y flwyddyn 2022/23

35,852

E-bost wedi ymateb i yn ystod y flwyddyn 2022/23

95,421

Ymholiad wedi cofnodi yn ystod y flwyddyn 2022/23 (cynnydd o 17,500 ar y flwyddyn flaenorol)

16%

O galwadau ffôn (neu 20,970) yn y Gymraeg

Cynnydd a Wnaed

- Mae Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn dod yn ei flaen yn dda ers llofnodi'r Cytundeb Terfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid rhanbarthol yn Ionawr 2022.
- Datblygwyd y Fargen Twf o'r Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, a chyrrhaeddwyd carreg filltir arwyddocaol yn 2022 pan lofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chynghorau Ceredigion a Phowys, yn seiliedig ar ddatblygu a chyflwyno Achos Busnes y Portffolio. Cytunodd y ddwy lywodraeth i roi £55m, cyfanswm o £110m dros gyfnod o hyd at 15 mlynedd. Cyflwynwyd Achos Busnes Portffolio Strategol diwygiedig yn ffurfiol ym mis Mawrth 2023 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a disgwylir rhyddhau'r gyfran gyntaf o gyllid y Cynllun Twf yn ystod 2023/24 drwy Ddyfarniad Grant ffurfiol.
- Llwyddodd y Cyngor yn ei gais am £10.9m ar gyfer Aberystwyth o gyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Defnyddir y cyllid hwn i gyflawni tri phrosiect adfywio a fydd yn helpu i drawsnewid yr Hen Goleg yn Aberystwyth, adfywio'r promenâd a chreu 'harbwr byw'.
- Cydweithiodd y Cyngor â Chyngor Sir Powys ac amryw o fusnesau lleol i lansio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 drwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r problemau sy'n effeithio ar fusnesau yn y Canolbarth. Mae'n nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf, ac yn egluro'r mecanwaith i greu seilwaith sgiliau mwy llewyrchus ar gyfer y rhanbarth am y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.
- Mae Gweithffyrdd+ Ceredigion wedi parhau i helpu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth i gael mynediad wedi'i ariannu at hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein, profiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli a swyddi. Swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion yw staff y cynllun a chaiff ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae cymorth ar gael i helpu pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau iechyd neu anabledau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; gofalwyr; y rhai â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau; pobl â chyfrifoldebau gofal plant; pobl dros 54 oed; pobl mewn aelwyd ag un oedolyn neu aelwyd ddi-waith neu unrhyw berson o grwpiau Du, Asiaidd a Lleoiafrifoedd Ethnig.
- Yn sgil buddsoddiadau, Ceredigion yw'r sir gyntaf i gael rhwydwaith LoRaWAN sydd ar gael i bartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus i wella'r defnydd o dechnoleg i gynorthwyo ag effeithlonrwydd busnes. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gosod 40 o byrth LoRaWAN ar nifer o asedau'r Cyngor er mwyn creu'r rhwydwaith. Ceredigion yw'r rhwydwaith ehangaf o blith holl awdurdodau lleol eraill Cymru a'r cyntaf i gael gwasanaeth ar draws llawer o'r sir. Yn hollbwysig, yn ogystal â'r Cyngor yn cael mynediad, bydd y rhwydwaith hefyd ar gael ac yn hygyrch i bob busnes, sefydliad a phreswyllydd, gyda'r rhyddid iddynt ddefnyddio'r rhwydwaith yn y modd y teimlant sydd fwyaf effeithiol.
- Sicrhawyd gwerth £2.8m o fuddsoddiad o Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU, ac fe'i defnyddir ar hyn o bryd drwy 12 o brosiectau sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn cefnogi unigolion a busnesau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chymau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Economaidd.
- Mae un prosiect, dan arweiniad Antur Cymru, yn mynd i'r afael â'r mwyfwy o bobl sy'n ystyried entrepreneuriaeth sy'n seiliedig ar angen ond sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth busnes sefydledig. Mae'r prosiect yn grymuso unigolion i ennill sgiliau trosglwyddadwy trwy gymryd rhan mewn prosiect sy'n cyflwyno sgiliau busnes sylfaenol.
- Cafwyd £379k o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau i roi defnydd economaidd i asedau canol trefi ac i wella seilwaith gwyrdd yng nghanol trefi. Mae buddsoddiad yn cynnwys prynu 10/11 Sgwâr Harford yn Llanbedr Pont Steffan, a datblygu prosiect Seilwaith Gwyrdd yn Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan.
- Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Y cyllid dangosol ar gyfer Ceredigion yw £12.4m ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 i 2024/25. Mae £2.9m yn gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda £9.5m ar gyfer prosiectau refeniw. Mae'r UKSPF yn rhan o gyfres o gyllid gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i Pholisi Ffyniant Bro a'i fwrriad yw meithrin balchder mewn ardaloedd lleol a grymuso cymunedau lleol.
- Mae pedwar prosiect yng Ngheredigion, ynghyd â phump ym Mhowys, wedi derbyn cyfanswm o ychydig dros £1.3m gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a rhagwelir y bydd hyn yn sbarduno buddsoddiad posibl gwerth ychydig dros £3m. Mae'r prosiectau hyn yn rhan o'r cynllun Grant Creu Lleoedd trosfwaol sy'n rhan o'r rhaglen Trawsnewid Trefi. Y trefi yng Ngheredigion lle cynhelir y prosiectau yw Aberystwyth, Aberteifi a Llandysul. Mae Trawsnewid Trefi yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig £7 miliwn pellach i adfywio canol trefi yn y canolbarth dros dair blynedd.
- Gyda chymorth cyllid LEADER drwy raglen Cynnal y Cardi, mae yna Swyddog Datblygu Trefi sy'n ymgysylltu â chynrychiolwyr trefi i helpu i hwyluso a chefnogi syniadau i adfywio trefi gwledig Ceredigion.
- Cafwyd dros £250,000 i wella mynediad i asedau naturiol Ceredigion drwy Grantiau Gwella Mynediad a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
- Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion fabwysiadu parhad y Cynllun Rhyddhad Ardreithi Manwerthu, Hamdden a

HYBU'R ECONOMI,
CEFNOGI BUSNESAU A
GALLUOGI CYFLOGAETH



Lletygarwch ar gyfer 2023/24, sy'n rhoi modd i oddeutu 800 o fusnesau yng Ngheredigion fanteisio ar ostyngiad o 75% ar ardrethi annomestig, gyda chyfanswm o £3.6m ar gael i fusnesau o dan y cynllun.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn dal i weithio'n rhagweithiol i liniaru achosion tlodi a'i effaith yng Ngheredigion.
- Rhoddodd Cyngor Sir Ceredigion £30,000 i fanciau bwyd ledled y sir o'r gronfa atal digartrefedd a roddir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru. Daw'r hwb hwn wrth i fanciau bwyd weld cynnydd mawr yn y galw oherwydd yr argyfwng costau byw.
- Lansiwyd cynllun ECO4 ym mis Hydref 2022, gan anelu at aelwydydd incwm isel ac agored i niwed sy'n dlawd o ran tanwydd ac yn byw mewn eiddo aneffeithlon o ran ynni.
- Mae cryn waith wedi'i wneud i godi proffil gweithlu Cynorthwyr Personol Taliadau Uniongyrchol trwy fynd ati'n weithredol i recriwtio wrth i aelodau'r tîm fynychu ffeiriau swyddi a digwyddiadau galw heibio mewn canolfannau gwaith. Mae 56 o Gynorthwyr Personol wedi'u recriwtio hyd yn hyn, sy'n gynydd sylweddol.
- Mae'r Porth Cymorth Cynnar yn arwain ar brosiect i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu cyfleoedd mentrau cymdeithasol a micro. Cafwyd cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae'r Cyngor wedi cefnogi cynllunio'r fanyleb ar gyfer microfentrau i fynd allan i dendr yn ail chwarter 2023/24. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu sut y gall Taliadau Uniongyrchol fod yn un o'r mecanweithiau talu pan sefydlir microfentrau.
- Er mwyn cefnogi sector gofal annibynnol sy'n gynaliadwy a chadarn, mae'r rhaglen dendro

newydd a manyleb Gofal Cartref wedi'u cwblhau gyda chontractau newydd i'w dyfarnu yn ail chwarter 2023/24.

- Mae'r Cyngor yn cefnogi'r sector annibynnol trwy gydweithio a darparu cymorth ar y cyd, cyllid ac adnoddau, offer yn ogystal â chynghor ar iechyd a diogelwch.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus yn cael cyllid i symud ymlaen â phrosiect i alluogi 'Trefi SMART' yng Ngheredigion. I ddechrau arni bydd y prosiect yn cynnwys gosod pwyntiau mynediad wi-fi yn Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Cei Newydd a Thregaron, gydag Aberystwyth ac Aberteifi eisoes â systemau ar waith. Yn ogystal â darparu 'Wi-fi yn y Dref' ym mhob un o'r trefi, bydd yr offer yn rhoi modd casglu data dienw ar nifer yr ymwelwyr, defnydd o le ac amser aros, a bydd yn galluogi Cyngorau Tref a'r Cyngor Sir i gynnal dadansoddiadau i gynorthwyo trefi a busnesau i nodi pa ddulliau sydd orau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu busnes.
- Darganfyddodd adolygiad dilynol y Gwasanaeth Cynllunio fod y Cyngor wedi cymryd camau cyflym i ddechrau ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru a bod cynnydd da yn cael ei wneud, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Pwyllgor Rheoli Datblygu newydd. Rydym yn parhau i weithio drwy'r argymhellion sy'n weddill yn ogystal ag unrhyw argymhellion ychwanegol a wneir

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

£10.9m

o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad 2022-25

37

o Fusensau wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion

21,363

£150 o daliadau Cymorth Costau Byw wedi'u gwneud i dderbynwyr gwerth cyfanswm o £1.51m

703

Talwyd cyfanswm o £352,000 i dderbynwyr y Cynllun Grant Gofalwyr

£760,000

cyllid cyfalaf allanol a ddenwyd

7,547

Derbynwyr Grant Tanwydd Gaeaf a dalwyd yn ystod yr argyfwng costau byw, gyda chyfanswm gwerth o £3.2m

41

Swydd newdd wedi creu yn ystod y flwyddyn

£42.4m

Cymeradwyo cais rhanbarth Canolbarth Cymru ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

GWELLA CANLYNIADAU



CREU CYFLEOEDD

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi parhau i symud ymlaen yn ystod 2022/23 gyda rhai datblygiadau mawr a fydd yn dod â'r buddsoddiad o £110m i'r rhanbarth gam yn nes. Llofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynghorau sir Ceredigion a Phowys yn 2022. Ar ddiwedd y flwyddyn, ym mis Mawrth 2023, cyflwynwyd Achos Busnes Portffolio Strategol diwygiedig yn ffurfiol i Lywodraethau Cymru a'r DU a disgwyliar cyfran gyntaf y cyllid yn ystod y flwyddyn 2023/24.

Mae'r Fargen Twf yn bartneriaeth sy'n torri tir newydd i ddod â chyfanswm buddsoddiad o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a disgwyliar y bydd yn denu buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill. Disgwyliar i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Twf esgor ar fuddion cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis **gwell ansawdd bywyd, creu cyfleoedd busnes** yn dilyn effaith COVID-19, datgarboneiddio mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd.

- Dyma'r canlyniadau y gellid eu cyflawni yn y Canolbarth drwy fuddsoddiad y Fargen Twf:
- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yn y Canolbarth erbyn 2032.
- Cefnogi cynnydd GVA net ychwanegol o rhwng £570 miliwn a £700 miliwn ar gyfer economi'r Canolbarth erbyn 2032.



DATBLYGU SGILIAU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys ac amrywiaeth o fusnesau lleol i lansio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r materion sy'n effeithio ar fusnesau yn y Canolbarth. Mae'n nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf, ac yn nodi'r mecanwaith i greu seilwaith sgiliau mwy llewyrchus i'r rhanbarth ar gyfer y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.

Trwy ymwneud yn agos â busnesau, **gan roi llais iddynt ddylanwadu ar flaenoriaethau** ar gyfer y rhanbarth, mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â phwysigrwydd gwneud **cysylltiadau cryf rhwng y system ddysgu leol a'r sgiliau sydd eu hangen ar draws y rhanbarth**, fel ein bod yn **creu'r amodau cywir ar gyfer gweithlu ffyniannus**.

Lansiwyd y Cynllun yn y digwyddiad Tyfu—Diffinio—Cyflawni Gyda'n Gilydd, a'r Cynllun yn nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer **buddsoddiad rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf** yn rhanbarth y Canolbarth ac yn nodi'r mecanwaith i greu **seilwaith sgiliau mwy llewyrchus** i'r rhanbarth ar gyfer y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.

Yn ystod 2023, bydd y Bartneriaeth yn ymgynghori â busnesau a rhanddeiliaid ynghylch yr heriau y mae busnesau yn eu hwynebu ac, yn benodol, recriwtio sgiliau nawr ac yn y dyfodol, i'n helpu i lywio'r ddarpariaeth sgiliau sydd eu hangen er mwyn i'r economi a



RHANNU LLWYDDIANT

Mae Strategaeth Economaidd 15-mlynedd Ceredigion yn nodi sut y byddwn yn cydweithio tuag at sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd dylanwad lle gall y Cyngor wneud gwahaniaeth i'r economi, h.y. sut mae'n defnyddio ei asedau cyfalaf, dynol a refeniw i gael effaith gadarnhaol ar economi Ceredigion.

Cyflwyno'r ddogfen strategaeth y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol. Mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltuedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Mae llawer o fentrau eisoes wedi'u datblygu a'u gweithredu o dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Sicrhawyd swm sylweddol o gyllid allanol gan ystod o brif rhanddeiliaid, a bydd hyn yn galluogi gosod y sylfeini ar gyfer twf economaidd pellach.

Er enghraifft, mae Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at bron i £500,000 o fuddsoddiad grant mewn busnesau lleol, gan ddenu £631,000 pellach o gyllid y sector preifat, a hyn wedi arwain at greu 146 o swyddi newydd a diogelu 408 o swyddi eraill mewn 81 o fusnesau. Sicrhawyd pecyn cyllid pellach gwerth £173,000 yn 2022 gan arwain at werth £250,000 o arian cyfatebol gan y sector preifat ar gyfer 10 busnes yng

Nggheredigion, gan greu 35 o swyddi newydd a diogelu 86 ohonynt.

Mae'r buddsoddiad a chynnal y prosiectau hyn hyd yma wedi cefnogi nodau'r strategaeth i **gefnogi busnesau i ddechrau a thyfu, gan hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, gan arwain at ddatblygu sgiliau yn y gweithlu**.

Bydd y Strategaeth yn parhau i arwain datblygu prosiectau pellach i gyflawni amcanion y Strategaeth dros y pymtheng mlynedd nesaf.



CRYFHAU CYMUNEDAU

Ym mis Rhagfyr 2022 cymeradwywyd cais rhanbarth y Canolbarth i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan alluogi mynediad at £42.4 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i'w fuddsoddi yn y Canolbarth hyd at fis Mawrth 2025, gyda Cheredigion yn gymwys i gael bron i £15m o gyllid.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i roi trefniadau ar waith i alluogi sefydliadau a mudiadau lleol i gyflwyno eu syniadau ar gyfer cyllid.

Bydd y cyllid yn cefnogi amcanion Ffyniant Bro sy'n ceisio rhoi **hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw** drwy dyfu'r sector preifat, **gwella gwasanaethau cyhoeddus, adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, grymuso arweinwyr a chymunedau lleol a chynyddu lefelau rhifedd yn y boblogaeth oedolion**.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn **dda** ac mae'r rhagolygon gwella yn **dda**. Mae'r camau i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu cynlluniau partneriaeth gydweithredol ac arloesol yn symud ymlaen yn dda. Un pwynt penodol ydy'r symudiad yn nes at dynnu lawr y fargen dwf o £110m ar gyfer y rhanbarth i ddatgloi potensial yr economi leol a chreu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a datblygu sgiliau busnesau lleol yn arbennig o bwysig.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn enghraifft o gydweithio i sicrhau ein bod yn cryfhau'r economi leol a rhanbarthol fel rhan o Gymru lewyrchus a chydnerth ar ôl COVID-19.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIAINT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

Llewyrchus

Cydnerth

Iachach

May Cyfartal

Cydlynus

Diwylliant

Byd-eang



Hirdymor

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor yr economi hyd at 2035
- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Strategaeth Economaidd yn mynd i'r afael â gwendidau strwythurol hirdymor
- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod y weledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd
- Defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau yn y dyfodol i ddatblygu gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru



Atal

- Bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn atal allfudo pellach o bobl ifanc medrus
- Bydd twf economaidd yn atal effaith negyddol patrymau mudo yn y dyfodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Bydd ymyriadau yn y Strategaeth Economaidd yn atal twf pellach yn y bwlch cynhyrchiant
- Bydd denu a chreu cyfleoedd swyddi â chyflogau uchel yn helpu i atal aelwydydd rhag mynd i dlddi a chaledi



Cydweithio

- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd ynghyd i gyflawni nodau a rennir
- Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru a'r DU i wneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd
- Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn dod ag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth ynghyd i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.

Cynnwys



- Mae busnesau'r sector preifat, ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol, yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau a strategaethau allweddol
- Y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymwneud â llunio rhaglen y Cynllun Twf sy'n dod i'r amlwg
- Ymgwymerwyd yn helaeth â datblygiad y Strategaeth Economaidd
- Seiliwyd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol sy'n allweddol o ran llywio'r holl strategaethau lleol ar ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid



Integreiddio

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn darparu gweledigaeth a chamau gweithredu a rennir ar gyfer datblygu'r economi leol a bydd yr ymyriadau a gynhwysir ynddi yn cael eu cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y 15 mlynedd nesaf.
- Strategaethau twf economaidd wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill a ddarperir, gan gynnwys addysg, sgiliau, cynllunio a seilwaith

CYNNAL Y CARDI

Mae Cynnal y Cardi yn parhau i gefnogi gweithgarwch adfywio cymunedau gwledig o'r gwaelod i fyny drwy brosiectau peilot, astudiaethau dichonoldeb, hwyluso, gweithgareddau rhwydweithio a hyfforddiant a mentora.

Mae tua 70 o weithgareddau wedi'u cefnogi gan gynnwys:

- "Ceredigion360," dichonoldeb i ddarganfod a oes awydd i greu a chynnal gwefannau ardaloedd lleol bywiog, cynaliadwy ar draws ardaloedd o Geredigion;
- Gwaith dichonoldeb i'r cyfleoedd i ddatblygu "Canolfan Tir Glas" ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan;
- Treialu cynllun oergell gymunedol yn Aberporth;
- Treialu dysgu dwyieithog, digidol yn yr awyr agored drwy ddatblygu cyrsiau mewn coetiroedd;
- Cefnogi gyda gweithgareddau ymgysylltu ac archwilio dichonoldeb menter gymunedol Tafarn Gymunedol Dyffryn Aeron.

Mae Cynnal y Cardi yn brosiect LEADER, sydd wedi derbyn cyllid trwy Raglen Datblygu Gwledig Cymru. Nod y prosiect yw ysgogi datblygiadau arloesol sy'n cynyddu gwerth ac amrywiaeth y cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl Ceredigion.

Cynnydd a Wnaed

- Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau o ran darparu gofal cymdeithasol drwy symud tuag at gyfuno'r gwasanaeth plant ac oedolion a oedd ar wahân yn flaenorol, yn un Gwasanaeth Gydol Oed a Llesiant. Mae hyn yn dileu rhwystrau adrannol, yn darparu gwasanaeth gydol oes fwy cyson i ddefnyddwyr ac yn cynnal sgiliau generig a hyblygrwydd staff.
- Mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi'i drawsnewid yn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar i helpu cysylltu pobl i'r cymunedau a'r cyfleusterau o'u cwmpas, adeiladu gwydnwch unigol a theuluol ac atal problemau rhag gwaethygu fel bod angen gwasanaethau lefel uwch.
- Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu model Llesiant Gydol Oes i ddarparu'r hyn a ystyrir yn draddodiadol yn wasanaethau Gofal Cymdeithasol.
- Parhau y mae'r gwaith i roi'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes ar waith wrth i drawsnewid gwasanaethau ddod yn ei flaen yn dda yn sgil yr integreiddio ar Ofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes yn dri gwasanaeth, sef Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal sydd, ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid, yn ffurfio'r 4 prif faes yn y Rhaglen Llesiant Gydol Oes.
- Fodd bynnag, mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i weld cynnydd yn y galw ar wasanaethau sy'n arwain at bwysau costau sylweddol ar draws y model Rhaglen Llesiant Gydol Oes. Mae'r rhain i'w cael yn arbennig mewn meysydd fel Plant sy'n Derbyn Gofal (yn y sir), Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir, lleoliadau Pobl Hŷn a lleoliadau Anabledd Dysgu. Mae'r Cyngor hefyd yn gweld mwy o gymhlethdod yn yr achosion ar draws y gwasanaethau hyn gan ychwanegu deinamig pellach at y cynnydd yn y galw.
- Mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei wneud mewn meysydd allweddol megis Cyfleusterau Plant yn y Sir, Canolfannau Llesiant, Cartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol a threialu Gofal wedi'i alluogi gan Dechnoleg.
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth a chefnogaeth lawn i rôl gofalgwyr, yn enwedig trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant, gan ganiatáu i ofalgwyr gael seibiant o'r hyn a all fod yn rôl heriol 24/7.
- Manteisiwyd ar y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, a chyllid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, i addasu cartrefi er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cymunedau.
- Fel yr awdurdod lleol Cymraeg cyntaf i wirfoddoli i groesawu ffoaduriaid o Syria, mae Ceredigion wedi croesawu ac integreiddio 74 ffoadur i'r sir. Mae'r rhaglenni adsefydlu pobl sydd wedi'u dadleoli yn mynd yn dda.
- Adsefydlwyd 146 o ffoaduriaid yng Ngheredigion yn ystod 2022/23.
- Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo trigolion o bob oed yng Ngheredigion, drwy eu helpu i gael mynediad at gyfleoedd cymorth yn eu hardal a allai gynnal a gwella eu lles.
- Drwy gydol gaeaf 2022/23, bu tîm o Gysylltwyr Cymunedol Ceredigion yn gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a llawer o grwpiau cymunedol i sefydlu Mannau Croeso Cynnes. Mae Mannau Croeso Cynnes yn fannau diogel, cynnes sy'n rhad ac am ddim ac yn groesawgar i bob oed, ac mae rhai ohonynt hefyd yn darparu diodydd poeth, byrbrydau a gweithgareddau. Agorodd caffis, eglwysi, canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, llyfrgelloedd a siopau llyfrau ar draws y sir eu drysau a chroesawu pobl o bob oed. Roedd y Mannau Croeso Cynnes yn fan cyfarfod cymdeithasol i bobl ddod at ei gilydd a meithrin cyfeillgarwch. Roedd 42 o Fannau Croeso Cynnes ar draws Ceredigion.
- Roedd y prosiect "Ar Eich Beic" a ariannwyd gan Cynnal y Cardi a'i reoli gan Iechyd a Gofal Gwledig Cymru wedi gosod 9 beic ymarfer corff mewn tair tref i annog pobl ifanc i wneud mwy o weithgarwch corfforol awyr agored, gan y profwyd bod hynny yn gwella iechyd corfforol a lles meddyliol. Y trefi yn y prosiect yw Aberteifi, Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan.
- Cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion drosglwyddo Cartref Gofal Hafan y Waun i berchnogaeth y Cyngor ym mis Medi 2023 gan fod â ffocws ar sicrhau bod y cartref parhau i weithredu er budd y preswylwyr a'r staff fel ei gilydd. Mae'r penderfyniad yn gam pwysig tuag at gynnal dyfodol yr adnodd hanfodol hwn a rhoi sicrwydd i drigolion a'u teuluoedd. Hafan y Waun yw prif gyfleuster preswyl y Sir gan fod â lle i 90 o welyau.
- Symudwyd ymlaen â chynlluniau i greu Canolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan, a datblygu cynlluniau i greu Canolfannau Llesiant yng Ngogledd a De'r sir hefyd.
- Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) bellach yn brysur iawn – derbyniwyd 1,011 o atgyfeiriadau yn 2022-23 gyda 343 o gleientiaid yn cwblhau'r rhaglen 16 wythnos yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth yn un o amryw o ddsbarthiadau a gweithgareddau ymyrraeth iechyd, gan gynnwys Ffit am Byth a Cherdded er Budd Lles. Cynigiwyd 424 o ddsbarthiadau a gweithgareddau bob mis yng Ngogledd, Canolfarth a De'r Sir. Mae'r rhaglenni'n boblogaidd iawn ymhlith cleientiaid ar draws Ceredigion.
- Mae prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Cylch Caron mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i symud ymlaen. Mae'r Bwrdd Prosiect yn datblygu manyleb y tendr ac yn gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynnig.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi'r dyhead o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i blant, teuluoedd ac oedolion yng Nghymru a sut y gellid gwneud gofal am ddim pan fo angen. Mae hon yn rhaglen

CREU CYMUNEDAU
GOLFALGAR AC IACH



CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

genedlaethol yn dilyn y cytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

- Mae gwaith wedi dechrau ar nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau Gofal Trwy Gymorth Technoleg (TEC). Bydd hyn yn llywio datblygiad ein strategaeth gofal wedi'i alluogi gan Dechnoleg gan gynnwys gwelliannau digidol i ystâd yr Awdurdod Lleol.
- Ymgorfforir dull gweithredu gydol oes at frysbenno ac asesu.
- Mae'r Adolygiad o Wasanaethau Uniongyrchol yn parhau a disgwyllir ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu wedyn.
- Mae'r Gwasanaeth Cydlynu Cyfarfodydd Grŵp Teulu bellach wedi cyrraedd ei gapasiti ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyfleoedd i gefnogi ataliaeth a chymorth cynnar.
- Parhau y mae'r adolygiad ar y model seibiant Gydol Oes a disgwyllir ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu wedyn.
- Mae manyleb Gofal Cartref a rhaglen dendro newydd wedi'u cwblhau gyda chontractau newydd i'w dyfarnu yn ystod ail chwarter 2023/24.
- Yn ystod 2022/23, roedd ehangu Dechrau'n Deg yng Ngheredigion yn cynnwys Llechryd, gan ymuno ag Aberteifi, Penparcau, Llanarth, Llandysul ac Aberporth. Mae Dechrau'n Deg yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu teuluoedd â phlant ifanc yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Dechrau'n Deg Ceredigion yn cynnwys gwasanaeth iechyd y blynyddoedd cynnar, gofal plant sesiynol wedi'i ariannu ar gyfer plant 2-3 oed, cymorth rhianta i ddatblygu sgiliau siarad, iaith a chyfathrebu plant.
- Yn dilyn gweithredu Strategaeth Gweithio Hybrid a Pholisi Hybrid Dros Dro Cyngor Sir Ceredigion, mae cyfleoedd sylweddol i ad-

drefnu a gwneud gwell defnydd o ofod swyddfa'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus eraill drwy weithio gyda sefydliadau partner. Mae rhan o Ganolfan Rheidol yn Aberystwyth bellach yn cael ei defnyddio gan Hywel Dda i gynni gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol. Mae'r symudiad hwn yn rhoi'r cyfle i'r bwrdd iechyd ddod â gwasanaethau clinigol yn nes adref i drigolion gogledd Ceredigion i'w helpu i fyw bywydau egniol ac iach.

- Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd £98,528 o'r Gronfa Gofalwyr i 536 o ofalwyr i helpu i wella eu hiechyd a'u lles.
- Cefnogi Gofalwyr Ceredigion i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i 805 o ofalwyr sy'n oedolion ledled Ceredigion a darparu 2,016 awr o ofal amgen i roi seibiant i ofalwyr o'u rôl ofalu.
- Cynyddodd aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr 14% i 1,888 o ofalwyr, gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â gwasanaethau a deddfwriaeth a chymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion unigol. Mae aelodaeth yn cael gwybodaeth am y Fforwm i Ofalwyr sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu cefnogaeth, gwybodaeth a chyfeillgarwch, gwybodaeth am ddigwyddiadau i Ofalwyr, cyrsiau hyfforddi perthnasol, hysbysiadau am ymgynghoriadau sy'n digwydd ar faterion lleol a chenedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gan ofalwyr lais ar faterion sy'n effeithio arnynt.
- Rhwng mis Mai a mis Medi 2022, talwyd cyfanswm o £351,500 i 703 o ymgeiswyr cymwys ar gyfer taliadau cymorth Llywodraeth Cymru o £500 ar gyfer gofalwyr di-dâl.
- Mae'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn arwain ar gefnogi'r gwaith hwn yng Ngheredigion. Cynhelir cyfarfodydd Monitro Tensiwn wythnosol i gadw golwg ar arwyddion cynnar tensiynau cymunedol ac ystyried materion gweithredol mewn da bryd.

607

Atgyfeiriadau at y Cysylltwyr Cymunedol am gefnogaeth a dderbyniwyd

99,457

Safbwyntiau ar adnoddau Ceredigion ar wefan Dewis Cymru sy'n ceisio cefnogi llesiant pobl

4,250

Cylichgrawn gofalwyr wedi'i phrintio a'i dosbarthu ar draws Ceredigion

146

Ffoadur wedi'i ailsefydlu ar draws Ceredigion

42

Mannau Cynnes ar gael ar draws Ceredigion yn ystod gaeaf 2022/23

531

Pobl sy'n derbyn taliad uniongyrchol i gefnogi eu gofal cymdeithasol eu hunain

1,150

Camau gorfodi diogelu'r cyhoedd a gymerwyd i wella llesiant ac iechyd y cyhoedd pobl a chymunedau

1,567

Pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael cymorth yn y gymuned

453,000

Pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni gweithgaredd corfforol a gefnogir / a ddarperir gan y Ganolfan Llesiant

15

Ymarferion ymgysylltu a gwblhawyd gan y Cyngor yn 2022/23

GWELLA CANLYNIADAU



CEFNOGI POBL BREGUS

Sefydlwyd tîm newydd Ailsefydlu Ffoaduriaid mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y ffoaduriaid oherwydd y gwrthdaro yn Wcráin.

Mae'r Cyngor wedi parhau i roi cymorth parhaus i 7 teulu sydd wedi ffoi o'r sefyllfaoedd peryglus yn Affganistan a Syria, wedi croesawu 1 teulu newydd o Affganistan ac wedi croesawu 114 o deuluoedd newydd o Wcráin i Geredigion yn ystod y flwyddyn 2022-23.

Mae llawer o'r teuluoedd o Wcráin, yn enwedig y rhai a gyrhaeddodd y Ganolfan Groeso, bellach wedi symud allan o Geredigion i leoliadau eraill yn y DU ac ar draws y byd. Mae paratodau ar y gweill i sicrhau ein bod yn barod i groesawu ceiswyr lloches i Geredigion fel rhan o'n cyfraniad i'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwasgaru Ceiswyr Lloches.

Mae gan Geredigion hanes o gefnogi teuluoedd sy'n ffoi rhag rhyfel, newyn a digartrefedd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi llwyddo i gefnogi ffoaduriaid o Syria i gael eu croesawu i'r gymuned, a byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth helpu ffoaduriaid a'u hailsefydlu yn ein cymunedau. Wrth wneud hynny, gallwn roi **lle diogel iddynt hwy a'u teuluoedd**, cyfle i gael **cartref diogel**, i **aildeiladu eu bywyd** ac i **gyfrannu at gymdeithas**. Nid yn unig y mae hyn yn cefnogi ein huchelgais i greu cymunedau gofalgwr, mae hefyd yn cefnogi'r nod llesiant cenedlaethol o Gymru yn wlad sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang.



GWELLA LLESIAINT I BAWB

Mae rhoi cymorth i'r holl oedranau ac anghenion yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae cryn newid wedi bod yn ystod y degawd diwethaf yn nemograffeg a phroffil y gymdeithas, gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion.

O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i **sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir**, ar yr adeg gywir, er mwyn **atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd**.

Rydym yn nhydedd flwyddyn y Rhaglen ac mae cynnydd yn parhau i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.

Ym mis Chwefror/Mawrth 2023 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolwg o'n gwasanaethau cymdeithasol. Cadarnhaol oedd barn yr arolwg ar ein Model Llesiant Gydol Oes, gan sôn am sawl maes o arfer da,

a hefyd wedi rhoi argymhellion adeiladol i ni i'n helpu i gynnal y rhaglen a thrawsnewid y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y Sir.

Yn benodol, nodwyd y gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref i wasanaethau cymdeithasol yng Ngheredigion, ynghyd ag uwch arweinyddiaeth gref yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd adborth a gasglwyd gan yr arolygwyr yn dangos diwylliant a oedd yn **canolbwyntio ar les, meithrin a chynnal perthnasoedd a sicrhau canlyniadau diogel i bobl**.



BYWYDAU ANNIBYNOL & CHYFLAWN

Mae preswylwyr cyntaf cynllun gofal ychwanegol newydd Aberystwyth wedi siarad ynghylch sut y mae'r cynllun wedi trawsnewid eu bywydau, o sbarduno cyfeillgarwch newydd i ddarparu llwyfan ar gyfer dechrau newydd mewn bywyd.

Mae Maes y Môr, a ddarperir gan Tai Wales & West mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, wedi'i leoli ym Mhen yr Angor yn Aberystwyth, gan edrych dros y dref a'r harbwr. I lawer o'i drigolion newydd, mae wedi cynnig llawer mwy na golygfeydd godidog o'r môr.

Cyniga eu cartrefi newydd fynediad rhwydd i ystod o gyfleusterau, gofal a chymorth 24 awr ar y safle yn ogystal â Swyddog Llesiant, gan sicrhau bod preswylwyr yn byw **bywyd annibynnol, iach a llawn boddhad**.



CYSYLLTU POBL

Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi trigolion o bob oed a'u teuluoedd i wneud cysylltiadau, cael cyngor a chyfluoedd cymorth yn ogystal â chanfod gwasanaethau a grwpiau priodol yn eu cymunedau eu hunain, megis grwpiau cymdeithasol a all gael effaith **gadarnhaol a gwella eu llesiant**.

Mae Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn edrych yn ehangach ar y cyfleoedd sydd ar gael a all helpu i **gyfrannu at fywyd cyflawn**. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth am wasanaethau a rhoi cymorth i gael mynediad atynt, megis gwneud addasiadau bychain i'r cartref neu gymorth â siopa, ac wrth wneud hynny **meithrin hyder, gwella iechyd meddwl, creu cyfleoedd ac felly adeiladu cymunedau gwydn**.

Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 971 o ymholiadau am gymorth drwy ganolfan Cyswllt Cwsmer Ceredigion (CLIC), derbyniwyd 845 o atgyfeiriadau ac atgyfeiriwyd 468 o unigolion a grwpiau cymunedol at wasanaethau eraill y cyngor, at wasanaethau iechyd ac at fudiadau'r trydydd sector.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn **dda** ac mae'r rhagolygon gwella hefyd yn **dda**.

Mae'r cynnydd o ran cefnogi pobl i fod yn iach a chreu cymunedau sy'n gofalu yn dda ac mae canlyniadau eisoes i'w gweld megis creu canolfannau llesiant ar draws y sir, darpariaeth barhaus y rhaglen Llesiant Gydol Oes a'r cymorth i ffoaduriad Wcrain i ailsefydlu yn y Sir.

Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, megis recriwtio mewn gofal cymdeithasol, mae cynlluniau ar waith i sicrhau manteision pellach yn y flwyddyn i ddod.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

Llewyrchus

Cydnherth

Iachach

May Cyfartal

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang



Hirdymor

- Mae Model Gydol Oed yn ymwneud â chynllunio hirdymor i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 mlynedd + nesaf
- Mae Tueddiadau'r Dyfodol, megis newid demograffig wedi'u defnyddio yn y Model
- Mae'r Strategaeth Llesiant Trwy Oedran yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd o 2021 i 2027
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i wella llesiant corfforol a meddyliol yn cymryd agwedd hirdymor at gefnogaeth i ymateb



Atal

- Mae'r Model Gydol Oed yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd
- Mae Datblygu'r Canolfannau Llesiant yn cefnogi'r uchelgais i greu cymunedau iach
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth lawn a chefnogaeth i ofalwyr drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant o'u rôl heriol 24/7.



Cydweithio

- Mae'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid y Trydydd Sector yn cydweithio i roi rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith ar draws gorllewin Cymru
- Mae cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth yn mynd i'r afael ag arwyddion cynnar tensiynau cymunedol trwy ymyrraeth gynnar ac atal.
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.



Cynnwys

- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus
- Roedd yr Amcan o greu cymunedau gofalgar ac iach yn cynnwys canfyddiadau o'r Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac ymgynghoriad helaeth



Integreiddio

- Cydweithio cyhoeddus a phreifat i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Gymru iachach a nodau eraill
- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

100%

O blith aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, derbyniodd Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl

158

Cefnogi gofalwyr ifanc drwy weithio gyda Gofalwyr Ceredigion i gael bywyd y tu allan i'w rôl ofalu

3,000


Dosbarthu llyfrynau Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc i ysgolion ar draws y Sir

144%

Cynnydd yn aelodau Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Ifanc

Cynnydd a Wnaed

- Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio sefydliadau addysg, er enghraifft, drwy ddefnyddio cyllid rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif i adeiladu ysgol ardal ar gyfer Dyffryn Aeron yn ogystal â gwelliannau i Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Aberteifi a Chanolfan y Môr yn Ysgol Uwchradd Aberaeron.
- Dyfarnwyd cyllid o £5.7m i'r Cyngor yn 2022 tuag at Ganolfan Drochi wedi'i lleoli yn yr Ysgol Gymraeg ac adeiladu dosbarthiadau newydd yn yr ysgol.
- Mae cynlluniau i adeiladu ysgol gynradd newydd Dyffryn Aeron yn Felin-fach yn mynd rhagddynt. Bydd y cynllun dylunio ac adeiladu gwerth £13m yn darparu 30 o leoedd yn y feithrinfa a 210 o leoedd yn yr ysgol gynradd (gweler drosodd).
- Mae datblygiadau ysgol sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys £100k ar gyfer gwaith adeiladu yn Ysgol Uwchradd Penglais, gan roi cyfleusterau newydd a gwell i'r ysgol, £160k o waith adeiladu yn Ysgol Henry Richard a £5.4m o waith ar Ysgol Uwchradd Aberteifi fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Mae ymgynghorwyr proffesiynol a chontractwyr wrthi'n cael eu penodi i weithio ar yr estyniad newydd gwerth £5.4m yn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth, sef yr ysgol gyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghymru.
- Mae ymgynghorwyr hefyd wrthi'n cael eu penodi ar gyfer gwaith gwerth tua £1m i Amgueddfa Aberystwyth.
- Enillodd meithrinfa yng Ngheredigion, sef Meithrinfa Plas Gogerddan, Wobr Meithrinfa'r Flwyddyn yng Nghymru yng Ngwobrau Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd (NDNA) ym mis Mehefin 2022. Mae Plas Gogerddan yn un o nifer o feithrinfeidd yng Ngheredigion sy'n darparu addysg Cyfnod Sylfaen a ariennir gan Gyngor Sir Ceredigion yn eu sesiynau Cylch Meithrin.
- Cynhaliodd Porth Cymorth Cynnar 88 o weithdai i bobl ifanc 16+ oed gan ddarparu cymorth ac ataliaeth. Roedd y gweithdai yn cynnwys gwirfoddoli y gymuned, bowlio dan do, garddio a darganfod diwylliant a threftadaeth Gymreig.
- Roedd 125 o bobl ifanc a weithiodd gyda gweithwyr ieuentid wedi dangos gwelliant i'w lles a'u hyder. Er enghraifft, aeth un person ifanc nad oedd yn fodlon gadael ei gartref o gwbl ar daith gerdded llesiant gyda gweithiwr ieuentid.
- Roedd y ddarpariaeth ieuentid teithiol wedi ymgysylltu â 10 cymuned a 176 o bobl ifanc. Cyflwynwyd sesiynau pêl-droed wythnosol am ddim gyda Heddlu Dyfed-Powys a Sefydliad Pêl-droed Abertawe, ac un person ifanc wedi'i enwebu'n llysgennad ifanc oherwydd ei ymrwymiad.
- Ymgysylltodd Twf Swyddi Cymru+ (hyfforddeiaethau newydd) yn Hyfforddiant Ceredigion â 51 o ddysgwyr, ac aeth 75% ohonynt wedyn naill ai i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sydd angen y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad i fynd ymlaen i brentisiaeth, sefydlu busnes neu gael swydd newydd.
- Derbyniodd Sgiliau Gwaith 126 o atgyfeiriadau y llynedd gyda 69 o ddysgwyr yn ennill cymwysterau.
- Mae Hyfforddiant Ceredigion wrthi'n gweithio i gynnwys prentisiaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Thrydanol i'w cynnal yng Ngheredigion. Mae'r contract prentisiaethau yn parhau i dyfu bob blwyddyn fel rhan o rwydwaith ACT, gan gryfhau cronfa'r ymgeiswyr medrus a chymwys iawn yn y Sir drwy ddatblygu prentisiaethau newydd, micro-fentrau a mentrau cymdeithasol.
- Mae gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Ceredigion yn adolygu ei gynnis cwricwlwm yn gyson. Mae Dysgu Bro yn parhau i gynnis cyrsiau mewn dysgu cyfunol gyda mwyafrif y cyrsiau wedi dychwelyd i wyneb yn wyneb. Mae'r Tîm Cymorth Cyflogaeth yn rhedeg Cymunedau am Waith a Mwy+ i roi cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith.
- Mae Dysgu Bro yn cynnal nifer o gyrsiau trwy Geredigion mewn lleoliadau cymunedol. Cafwyd grant ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyrsiau trwy fideos ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gallu cynnis cyrsiau am ddim. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn hysbysebu am Gynghorwyr Hyfforddiant Rhifedd fel rhan o raglen Lluosi (y Gronfa Ffyniant Gyffredin).
- Mae Twf Swyddi Cymru+ yn Hyfforddiant Ceredigion yn cynnis profiad gwaith â thâl drwy'r elfen Ymgysylltu.
- Mae system addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y mwyafrif llwyddiannus yng Nghymru. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso ar lefel 2 (graddau TGAU A*-C neu gyfwerth) yn 91.7% yng Ngheredigion, sy'n uwch na'r cyfartaledd (86.6%) ac yn un o'r uchaf yn



**DARPARU'R DECHRAU
GORAU MEWN BYWYD A
GALLUOGI BOBL O BOB
OED I DDYSGU**



CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

genedlaethol.

- Cydweithiodd y Cyngor gyda'r trydydd sector a busnesau preifat i roi profiad gwaith i unigolion/grwpiau bregus.
- Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu gweithgor cyflogwyr a fydd yn cynnwys partneriaid allweddol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Gyrfa Cymru, Busnes Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn mynychu nifer o sioeau amaethyddol i godi proffil y cyrsiau a gynigir. Er enghraifft, aeth y gwasanaeth i sioe Aberystwyth gan gynnig nifer o sesiynau blasu i'r cyhoedd.
- Aeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau hefyd i Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Henry Richard i hyrwyddo Twf Swyddi Cymru+ a phrentisiaethau.
- Mae'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i Strategaeth Gorfforaethol newydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027.
- Cymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Strategol newydd Cymraeg mewn Addysg 2022-32. Mae'r cynllun yn nodi'r camau i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gyda'r nod cyffredinol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir erbyn 2032.
- Mae Cered, menter yr iaith Gymraeg, yn parhau i gefnogi, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i sicrhau bod yr iaith yn ffynnu ac yn parhau i fod yn iaith greiddiol a bod ganddi rôl ganolog yng nghymunedau Ceredigion. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys yr ymgyrch 'Dechrau pob sgwrs yn Gymraeg', y 'Powerhouse

Project' i wella'r cyfleoedd i gymunedau gymdeithasu a chyfrannu, a'r Siarter Iaith lle mae dros 26 o sefydliadau, busnesau a chlybiau wedi derbyn siarter aur, arian neu efydd. am eu hymrwymiad i'r Gymraeg.

- Cyhoeddodd y Cyngor ymgyrch, 'sut i gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb, ac yn eich dewis iaith' i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio eu dewis iaith a'r sianeli sydd ar gael i wneud hynny.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal Sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg ynghyd â throsolwg o ofynion Safonau'r Gymraeg i Gyngorwyr.
- Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i dreialu cwrs preswyl Codi Hyder i Ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i recriwtio mwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg, ac felly cefnogwyd ymgyrchoedd recriwtio diweddar ac archwiliwyd cyfleoedd i gyflawni hyn.
- Yn dilyn grant o £20,000 gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r hen feddygfa yn Aberaeron wedi'i hailagor fel oriel – Oriol Gwyn. Arweiniwyd y prosiect gan Gyngor Sir Ceredigion ac fe'i hgorwyd yn swyddogol ym mis Ebrill 2022, gan arddangos gwaith artistiaid sefydledig yn ogystal ag ymarferwyr creadigol ar ddechrau eu gyrfa.

907

Dysgwyr wedi cofrestru ar bob cwrs Dysgu Gydol Oed a Sgiliau

189

Pobl yn ymgysylltu â'r Tîm Cymorth Cyflogaeth

53

O bobl a ymgysylltodd a'r Tîm Cefnogi Cyflogaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth gael swydd

126

Person wedi'i chyfeirio Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith

117

Prentis wedi mynychu HCT yn y flwyddyn ddiwethaf

82%

O brentisiaethau a fynychodd HCT wedi cwblhau ei phrentisiaeth

87.5%

O blith y dysgwyr yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, wedi ennill gymwysterau priodol

98.65%

Plant/pobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael budd cadarnhaol o weithgareddau allgyrsiol a gwyliau

8,620

Sesiynau cyfrifiadurol cyhoeddus wedi defnyddio ar draws y llyfrgelloedd

268,572

Benthyciad gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (yn gorfforol ac adnodd digidol)

GWELLA CANLYNIADAU



CYFLEUSTERAU MODERN

Mae cynlluniau i adeiladu Ysgol Gynradd newydd Dyffryn Aeron yn Felin-fach yn mynd rhagdynt. Mae'r cynllun dylunio ac adeiladu gwerth £13m ar gyfer ysgol gynradd unllawr gydag Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol, Canolfan Iaith, Meithrin, a seilwaith yn cynnwys mynediad ffordd newydd, maes parcio a maes chwarae amldeffnydd.

Bydd y prosiect yn dod â thair ysgol gynradd at ei gilydd, sef Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felin-fach yn ogystal â'r Ysgol Feithrin a'r Ganolfan Drochi Iaith yn Felin-fach.

Yn yr ysgol ardal newydd hon i blant 3-11 oed, bydd 30 o leoedd meithrin/gofal cofleidiol a 210 o leoedd yn yr ysgol gynradd a chyflogir tua 56 o staff addysgu yn y cyfleusterau.

Bydd y cyfleuster newydd yn codi'r adeiladau dysgu yn Nyffryn Aeron i safonau Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt).

Yn ogystal â darparu cyfleusterau addysgu **modern a gwell**, bydd y prosiect hefyd yn golygu **ysgol ddi-garbon** sydd â **chostau rhedeg is** sy'n cefnogi uchelgais carbon sero net y Cyngor yn ogystal â rhoi mwy o **gyfleoedd ar gyfer dysgu a gweithgarwch corfforol** ar y cae chwaraeon newydd.



LLEIHAU ANGHYDRADDOLDEB

Cymeradwywyd Strategaeth Cydraddoldeb ac Amddifadedd newydd Partneriaeth Canolbarth Cymru gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023. Yn y strategaeth newydd ceir canllawiau i ysgolion sy'n cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig.

Y brif neges sydd wrth wraidd y strategaeth yw bod angen mwy o gymorth yn amlach ar ddysgwyr difreintiedig er mwyn iddynt gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

Gostyngwyd y trothwy cymorth i bobl ifanc ddifreintiedig ymgysylltu â'r Swyddogion Cynhwysiant Addysgol, a hyn yn golygu eu bod yn cael cymorth yn gynt na phobl ifanc nad ydynt dan anfantais.

Gwyddys bod cartref a chymuned plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae'r strategaeth yn rhoi mwy o gymorth i athrawon fynd i'r afael â'r problemau y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

Mae cyflawni'r strategaeth yn sicrhau yr eir i'r afael â'r heriau y mae rhai o blant a phobl ifanc Ceredigion yn eu hwynebu a'u bod yn **cael mynediad teg a chyfartal i addysg a chyfleoedd**.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi gwaith parhaus y Cyngor i **fynd i'r afael ag effaith tlodi**, gan gynnwys yr **effaith ar gyrhaeddiad addysgol**, a fydd yn **helpu i sicrhau safonau uchel a dyheadau i bawb yn y Sir**.



CREU CYFLEOEDD

Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Gwasanaeth Ieuencid, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith oll yn aelodau o Banel NEET (ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant). Cynigiwyd sesiynau blasu mewn lleoliadau fel gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymwaith. Hyrwyddwyd prentisiaethau mewn sawl digwyddiad Gyrfaoedd, mewn ysgolion a digwyddiadau eraill ledled y sir. Enillodd 64% o ddysgwyr a gefnogwyd gan Porth Cymorth Cynnar gymwysterau mewn hyfforddeiaethau ac enillodd 70% o ddysgwyr gymwysterau mewn prentisiaethau. Mae **creu cyfleoedd yn cefnogi uchelgais y Cyngor i wella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed**.



CYMUNEDAU CRYF

Mae Amgueddfa Ceredigion yn falch iawn o gael £115,894 o gyllid datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y prosiect: Perthyn: archwilio sut y gall casgliadau **greu cymuned yng Ngheredigion**.

Mae Perthyn yn brosiect uchelgeisiol sy'n ceisio sicrhau y gall pob un o drigolion Ceredigion ddod o hyd i rywbeth yng nghasgliad yr amgueddfa sy'n cyd-fynd â'u **hymdeimlad o hunaniaeth a'u gwerthoedd**, waeth beth fo'u hoedran, eu rhywedd, eu hethnigrwydd, eu credoau, eu rhywioldeb, eu gallu, neu nodweddion eraill y maent yn uniaethu â nhw.



CEFNOGI CYFLOGAETH

Mae Gwaith wedi gweld cynnydd mewn niferoedd ac wedi derbyn 126 o atgyfeiriadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn ddysgwyr blwyddyn 10 ac 11 sydd wedi ymddieithrio ac mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod dysgwyr bregus yn cael **mynediad at gwricwlwm galwedigaethol pwrpasol** i ddiwallu eu hanghenion drwy gynnig ystod o gyrsiau gwahanol i roi'r **cyfle gorau iddynt gyflawni a chyrraedd eu llawn botensial**.

Llwyddodd cyfanswm o 69 o ddysgwyr i ennill cymwysterau y flwyddyn academaidd hon.

Mae hyn yn rhan o uchelgais y Cyngor i gefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi ymddieithrio, a **sicrhau bod gan bob disgybl yng Ngheredigion gyrchfan i'w taith**.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn **dda** ac mae rhagolygon gwella yn **dda**.

Mae buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion yn mynd rhagddynt megis adnewyddu ac ehangu i greu ysgol 3-16 Henry Richard. Mae cyrhaeddiad addysgol disgyblion Ceredigion yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, ac mae dysgu ôl-16 yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth i agor cyfleoedd newydd i holl ddysgwyr Ceredigion.

Mae strategaethau allweddol wedi'u cyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf i greu'r sylfeini ar gyfer gwelliannau pellach megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir a'r Strategaeth Cydraddoldeb ac Amddifadedd ar gyfer ysgolion a fydd yn cefnogi disgyblion yr effeithir arnynt yn anghymesur.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o bob oed I Ddysgu** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

Llewyrchus
Cydnherth
Iachach
May Cyfartal
Cydllynus
Diwylliant
Byd-eang



Hirdymor

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn cymryd agwedd hirdymor
- Mae gwelliannau i ysgolion yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr



Atal

- Mae cefnogi pob dysgwr yn helpu i roi gwell cyfleoedd dysgu a gyrfa iddynt
- Bydd gweithio i godi lefelau incwm ar draws y Sir yn helpu i atal tlodi mewn gwaith
- Mae cefnogi pobl trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Daliadau Tai Dewisol yn elfennau allweddol o gymorth ariannol i aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu.



Cydweithio

- Gweithio gyda'r Trydydd Sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn pandemig COVID-19
- Bydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru yn helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bobl ifanc Ceredigion.
- Cefnogi darpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd ac ariannu gofal plant i bob plentyn dwy oed



Cynnwys

- Mae cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc ledled Ceredigion yn cael eu clywed
-



Integreiddio

- Bydd darparu'r dechrau gorau mewn bywyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mae gwell sgiliau a swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n galluogi'r economi leol i dyfu
- Mae Rhaglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg hefyd yn cryfhau pob un o'r pedair piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwyllianol)

CYFLAWNIADAU PELLACH

51

Twf Swyddi Cymru + Dysgwyr yn ymgysylltu â Hyfforddiant Ceredigion Training

75%

O'r bobl a oedd yn ymwneud â Hyfforddiant Ceredigion aeth ymlaen naill ai i gyflogaeth neu ddysgu pellach

91.9%

Presenoldeb disgyblion cynradd

88.9%

Presenoldeb disgyblion uwchradd

Cynnydd a Wnaed

- Mae'r Cyngor wedi parhau i geisio cael cyllid ar gyfer gwaith amddiffyn yr arfordir ac yn dal yn cwblhau'r gwaith hwnnw yn Aberaeron, Aberystwyth, y Borth a Llangrannog, a'r gwaith rheoli perygl llifogydd yn Llandre, Aberaeron, y Borth, Talybont a Chapel Bangor:
- Mae contract adeiladu Cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron ar fin cael ei ddyfarnu. Cwblheir Achos Busnes Amlinellol Aberystwyth yn ystod 2023/24, tra bydd yr achos busnes ar gyfer Llangrannog yn destun ymgynghoriad yn ystod hydref 2023. Yn Nhal-y-bont a Chapel Bangor, mae'r achosion busnes amlinellol bron wedi'u cwblhau, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Achos Cyfiawnhad Busnes Llandre, Aberaeron a'r Borth wrthi'n cael eu datblygu. Gohiriwyd Achos Busnes Amlinellol y Borth tra bod CNC yn cynnal eu ABA ar gyfer aber Afon Dyfi.
- Sicrhawyd cyllid i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer atebion i lifogydd yn Llanybydder a Llandysul, a rhagwelir y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith adeiladu unwaith y bydd yr achos busnes wedi'i gwblhau a chytuno arno.
- Mae'r gwasanaeth torri glaswellt amwynder wedi'i adolygu ac mae bellach yn cynnwys 'Mai Di-dor' / 'No Mow May' i gefnogi bywyd gwylt a bioamrywiaeth yn y Sir. Adolygir y gwaith rheoli cyson ar ymylon ffyrdd er mwyn galluogi bioamrywiaeth a blodau gwylt i ffynnu a gwella hyn ymhellach.
- Gan weithio gyda chwmnïau bysiau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, mae'r Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd wedi llwyddo i sicrhau gwasanaeth ar y lefel orau y gallai gweithredwyr ei ddarparu.
- Parhau y mae'r gwaith yn archwilio, cynnal ac atgyweirio'r rhwydwaith priffyrdd yn amodol ar y cyllid sydd ar gael a cheisir am gyllid ychwanegol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adnewyddu priffyrdd.
- Rhoddir blaenoriaeth i newid hinsawdd a lleihau carbon. Ers 2007 mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o dri Chynllun Rheoli Carbon 5 mlynedd.
- Yn 2019, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd y Cyngor i gyflawni Net Carbon Sero erbyn 2030.
- hyn wedi golygu newid cannoedd o fylbiau o amgylch y sir, gan arwain at arbediad o dros £2 filiwn.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Ceredigion wedi cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru a'r DU yn gyson ac ar hyn o bryd mae'n 70.3% ar gyfer y deuddeg mis hyd at fis Mehefin 2022, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 65.5% a'r trydydd uchaf yn genedlaethol. Mae lefelau uchel o ailgylchu yn y Sir yn dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mentrau Eff-eithlonrwydd Ynni sy'n rhoi cyngor a mesurau effeithlonrwydd yng nghartrefi pobl.
- Aethpwyd ati i wella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus ar hyd coridor TrawsCymru drwy Gyllid Trafndiaeth Leol.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net newydd ar gyfer Cyngor Ceredigion a hwnnw'n nodi ei ymateb i'r argyfwng hinsawdd ledled y sir, ac yn egluro pam fod angen i ni gymryd y camau hyn a pham mae targed 2030 mor bwysig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r Cyngor wedi cydnabod ers tro bwysigrwydd newid hinsawdd a'i effaith hirdymor ar gymunedau ac ar yr amgylchedd. Mae ganddo ymrwymiad parhaus i leihau ei ôl troed carbon, a bydd hyn o fudd i'r Awdurdod a'r gymuned ehangach drwy leihau allyriadau carbon a hefyd arbedion costau ynni.
- Fel rhan o'r ymrwymiad hwn mae'r Cyngor wrthi'n datblygu map ffordd â thri cham iddo i symud tuag at ei nod o gyflawni statws allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac mae'n gyson â nod datganedig Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.
- Bu heriau gweithredol yn ystod y gaeaf diwethaf i'r Gwasanaeth Gwastraff, ond mae dulliau newydd eisoes wedi'u treialu i oresgyn rhai o'r rhain (e.e. gwneud casgliadau Gŵyl y Banc yn gynharach) ac mae perfformiad ailgylchu yn parhau'n gryf. Casglwyd 89.33% o lwybrau casglu gwastraff ar y diwrnod casglu a drefnwyd, a 96.56% o lwybrau casglu gwastraff wedi'u casglu ar yr wythnos casglu a drefnwyd.
- Mae Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd ar y gweill a defnyddir hon i adolygu'r gwasanaeth a blaenoriaethu sut orau i ddyrannu adnoddau. Mae Priffyrdd a'r Gwasanaeth Amgylcheddol wrthi'n comisiynu ymgynghorwyr i gynorthwyo â chynnal adolygiad cyfanol o'r gwasanaeth gwastraff.
- Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid yn 2021, dyfarnwyd £420,000 o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isef lawn (ULEVTF) ar gyfer datblygu Strategaeth ULEV Ceredigion sy'n cyd-fynd â Strategaeth Ynni Tyfu Canolbarth Cymru i ddatblygu rhaglenni gwaith ULEV.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi partneru â Silverstone Green Energy Limited i weithredu ei fannau gwefru ac mae eisoes wedi dechrau gosod manau gwefru cerbydau trydan mewn 11 o feysydd parcio cyhoeddus Talu ac Arddangos yn y sir. Rhagwelir twf sylweddol yn y galw am bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan (EV) cyhoeddus a phreifat yn ystod y 10 mlynedd nesaf wrth i werthiant cerbydau trydan gynyddu.
- Hyd yma mae Cyngor Sir Ceredigion wedi

CREU CYMUNEDAU
CYNALIADWY, MWY
GWRYDD SYDD WEDI'U
CYSYLLTU'N DDA A'I
GILYDD



CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

gosod bron i 450kW o baneli solar ar nifer o adeiladau, gan gynhyrchu mwy na 400,000kWh o drydan gan fod â photensial i ddarparu hyd at £113,000 o arbedion referen-iw y flwyddyn (yn ôl prisiau cyfredol).

- Mae buddsoddi mewn lleihau carbon wedi cyfateb i ostyngiad cronol o 20.48% mewn allyriadau carbon yn erbyn targed o 15% (2017/18 i 2021/22).
- Bydd pump o draethau mwyaf poblogaidd Ceredigion yn chwifio Baneri Glas unwaith eto yn 2023 ar ôl derbyn y wobwr gan Cadwch Gymru'n Daclus. Traethau'r Faner Las yw'r Borth, De Aberystwyth, Llangrannog, Tres-aith ac Aberporth.
- Mae pedwar traeth arall wedi ennill statws Gwobr Glan Môr sef Gogledd Aberystwyth, Harbwr Cei Newydd, Traeth y Dolau, Cei Newydd a Chlarach. Rhaid i draethau sy'n ennill statws gwobr y Faner Las ac Arfordir Glas fodloni'r safon uchaf o ran ansawdd dŵr "rhagorol" a chânt eu beirniadu am ddarparu cyfleusterau i ddefnyddwyr traethau ac am ddangos rheolaeth dda a darpariaeth diogel-wch.
- Mae Traeth Gwyn Cei Newydd, Cilborth, Llanrhystud, Mwnt a Phenbryn oll wedi ennill y Wobr Arfordir Glas. Mae'r Wobr Glan Môr yn cydnabod traethau sydd ag ansawdd dŵr o safon "dda" yn gyffredinol, cyfleusterau cyhoeddus, darpariaeth diogelwch a rheolaeth ar y traeth.
- Fel awdurdod lleol, rydym wedi gweithio'n agos gyda datblygwyr a landlordiaid i ddarparu ystod o dai fforddiadwy yn y sir. Cwblhawyd 657 o gartrefi fforddiadwy net ers 2017.
- Mae lobio sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at ddarpariaeth band eang Ffibr llawn o 40.9% a galluog-rydd dros 100 Mbps. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae darpariaeth Ffibr i eiddo (FTTP) wedi cynyddu o 28.3% i 40.9%.

- Yn dilyn cwblhau Rhaglen Cyflymu Cymru disgwylir y bydd 90% o Geredigion yn gallu derbyn +30Mbps. Mae buddsoddiad yn digwydd ledled y sir wrth i 4 darparwr rhwyd-waith amgen gwahanol gynnig prosiectau ffeibr, gan olygu dros 20 o ardaloedd i elwa o'r prosiect sydd i'w ddechrau yn 2022 a 2023.
- Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Strategaeth Ddigidol newydd a fydd yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar lefel uchel a'r cynlluniau ar gyfer ei ddarpariaeth ddigidol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i gwsmer-iaid.
- Mae'r Tîm Argyfyngau Sifil Posibl yn paratoi ar gyfer argyfyngau sifil ar draws y Sir ac yn paratoi sut i ymateb iddynt. I wneud hyn, mae ymarfer lleol wedi'i flaenoriaethu ochr yn ochr â digwyddiadau ymarfer a hyfforddi rhanbarthol. Yn ogystal, mae cynlluniau par-odrwydd wedi'u diweddaru a'u hadolygu dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â diweddariad-au i Gynlluniau Parhad Busnes.
- Mae ansawdd aer wedi aros ymhell o fewn y terfyn cyfreithiol ar gyfer NO2 ym mhob safle monitro yn y sir yn Chwarter 1. Mae monitro ansawdd aer yn fisol yn parhau i ddigwydd ynghyd ag adroddiadau blynyddol ar duedd-iadau.
- Aethpwyd ati'n rhagweithiol i weithio gyda Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) a Grŵp Gorchwyl a Gorff Enwau Lleoedd Hanesyddol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Llwyddwyd i atal 67% o aelwydydd a gefnog-wyd gan y Tîm Digartrefedd rhag dod yn ddi-gartref.
- Yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd, datblygodd Cyngor Sir Ceredigion Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNMs) a gymer-adywyd gan y Gweinidog dros Newid Hin-sawdd ym mis Awst 2022. Mae'r mapiau'n cynnwys llwybrau arfaethedig ar gyfer y dyf-

70.3%

gwastraff wedi'i ailgylchu wedi'i gompostio neu ei aildefnyddio am y deuddeg mis hyd at fis Mehefin 2022

1.8m

Cyfanswm yr oriau cilwat o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan asedau'r cyngor

1.67

diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomenni anghyfreithlon ledled y Sir

20.5%

Ostyngiad cronus mewn allyriadau carbon ers 2017/18, uwchben y targed o 15%

14

o draethau Ceredigion wedi adnabod mewn Gwobrau Arfordir Cymru eleni

93.6%

O'r diffygion priffyrdd categori 1 a gaiff eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf

2

Gwobr Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol i gydnabod y gwaith o helpu perchnogion tai i leihau eu biliau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon

40.9%

O gynnydd i ddarpariaeth band eang Ffibr i'r Adeilad (FTTP) o 28.3%, oherwydd buddsoddiad mewn cysylltedd digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf

GWELLA CANLYNIADAU



TAI Fforddiadwy Lleol

Defnyddir ystod o fesurau gan y Gwasanaeth Tai i geisio cael y nifer uchaf posibl o dai fforddiadwy i fod ar gael yn y sir. Mae hyn bellach yn cynnwys Cynllun Tai Cymunedol sydd newydd ei lansio sy'n defnyddio arian o'r Premiwm ar Ail Gartrefi drwy'r Dreth Gyngor bresennol.

Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad i gefnogi'r cynllun sy'n helpu pobl i gael tai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol drwy greu llwybr i fod yn berchen ar dŷ.

Mae hyn oherwydd y galw cynyddol am eiddo gwledig a bod unedau fforddiadwy ar gael mewn aneddiadau gwledig. Cynlluniwyd y cynllun i **atal aelwydydd cymwys rhag cael eu prisio allan o'r farchnad, atal dirywiad gwledig a diboblogi pellach, a chynnig opsiynau newydd i bobl aros yn eu cymuned leol.** Gall cynlluniau fel hyn arwain at fwy o ymdeimlad o gysylltiad, gan arwain at **gynaliadwyedd hirdymor cymunedau.**

Mae arian a godir o Bremiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor yn cael ei glustnodi i ariannu'r cynllun Tai Cymunedol, er mwyn cynorthwyo trigolion lleol i brynu cartrefi yn y Sir trwy gynnig benthyciadau ecwiti a rennir di-log. Bwriadir lansio'r cynllun ym mis Medi 2023.



DATBLYGU CYFRIFOL

Yr estyniad newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos ym Mhenparcau, Aberystwyth, yw adeilad sero net cyntaf y Cyngor.

Gosodwyd gwres o'r ddaear a phaneli solar fel rhan o'i gynllun, a'r bwriad yw y bydd hyn yn gosod meincnod ar gyfer gwaith adeiladu'r Cyngor yn y dyfodol.

Mae ynni adnewyddadwy bob amser hefyd yn rhan o waith adnewyddu adeiladau ac yn rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i'w darged carbon sero net o 2030.

Gwyddom fod plant yn teimlo'n gysylltiedig â'u hamgylchedd naturiol lleol a sylweddolwn bwysigrwydd diogelu'r amgylchedd ar gyfer eu cenhedlaeth hwy a rhai'r dyfodol. Yn yr Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion dywedodd plant mai newid yn yr hinsawdd yw'r her fwyaf a wynebir ar hyn o bryd. Bydd buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, lleihau allyriadau carbon a gweithio'n rhagweithiol gyda chontractwyr i gyflawni uchelgeisiau carbon sero net y Cyngor nid yn unig yn helpu i **ddiogelu'r amgylchedd**, ond hefyd yn **lleihau costau ynni** ac yn **lleihau ei ôl troed amgylcheddol.**



DIOGELU HANES & DIWYLLIANT

Mae'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd wedi'i ddiweddarau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i annog perchnogion tai i ystyried mabwysiadu enwau tai Cymraeg, a all fod â tharddiad ieithyddol, ac yn cyfeirio at elfennau hanesyddol neu ddiwylliannol yn y cyffiniau.

Mae'r dull hwn wedi derbyn cydnabyddiaeth o arfer da gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, a gofynnwyd am ganiatâd i rannu'r arfer da hwn gydag awdurdodau lleol eraill ledled y wlad.

Pan gofrestrir enwau tai yng Ngheredigion, caiff pob ymgeisydd wybodaeth am yr iaith Gymraeg a diwylliant yr ardal er mwyn helpu i annog y defnydd o enwau Cymraeg neu enwau hanesyddol. Mae mwyafrif y ceisiadau am enwau tai yng Ngheredigion yn Gymraeg ac/neu ag arwyddocâd hanesyddol.

Mae'r dull hwn yn **annog cadw enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol** ac yn cefnogi nod llesiant cenedlaethol o gael Cymru yn wlad sydd â **Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu.**



CYNYDDU EFFEITHLONRWYDD EGNI

Ym Mehefin 2022, yng Ngwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cymru, enillodd Cyngor Sir Ceredigion ddwy wobwr am eu Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni.

Mae'r Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni yn cydnabod gwaith y sector arbed ynni yng Nghymru. Cyflwynwyd y mesurau i helpu perchnogion tai i **lleihau eu biliau ynni**, mynd i'r afael â **thlodi tanwydd** a **lleihau allyriadau carbon.**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn rhedeg Cynllun Hyblygrwydd ECO ynghyd â Chynllun Cartrefi Clyd Ceredigion ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae nifer o fesurau inswleiddio a systemau gwresogi wedi'u gosod mewn amrywiol adeiladau i wella eu **heffeithlonrwydd o ran ynni.**

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £5 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, a'r buddsoddiadau hyn wedi arbed £2.8miliwn hyd yn hyn.

DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn **dda** ac mae'r rhagolygon gwella yn **dda iawn**.

Mae Ceredigion wedi cymryd rhan flaenllaw yn ei huchelgeisiau i gyflawni sero net a diogelu ei hamgylchedd unigryw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli o ran cyflawni sero net, mae'r camau i leihau ein hól troed carbon, gwella teithio llesol a chysylltu cymunedau ar y trywydd iawn ac mae datblygiadau pellach ar y gweill yn y flwyddyn i ddod.

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor, y Cynllun Tai Cymunedol a pherfformiad uchel parhaus mewn ailgylchu yn enghreifftiau o sut mae Ceredigion yn arwain y ffordd wrth gyflawni'r amcan hwn.

